# Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Broses Llywodraeth y Cynulliad o Ariannu Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

| Argymhelliad | Sylwadau |
|---|---|
| 1: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill drin y trydydd sector fel partner strategol wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod y trydydd sector yn bartner strategol allweddol o ran cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Cydnabyddir hyn yn 'Cyflawni ar Draws Ffiniau' ac 'Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol'. Ceir tystiolaeth bellach o hyn gan y canlynol:<br><br>• Mae'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cadarnhau ei fod o blaid gweld y trydydd sector yn bartner cyfartal ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, a bydd yn ailgadarnhau hyn yn y fersiwn a ddiweddarir o brosbectws y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n cael ei baratoi<br>• Mae Uned Creu'r Cysylltiadau wrthi'n datblygu pecyn hyfforddi ar gyfer y 22 o aelodau Llywodraeth y Cynulliad sydd ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) a bydd yn cynnwys gwybodaeth am rôl y trydydd sector o fewn Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae'r Uned hefyd yn datblygu rhaglen hyfforddi i gefnogi cyfranogiad llawn cynrychiolwyr Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) fel partneriaid cyfartal ar BGLlau. Bydd yr Uned hefyd yn cyfrannu at ddigwyddiad a gynhelir gan CGGC ym mis Gorffennaf sydd hefyd yn anelu at ddatblygu rôl CGSau ar y BGLl.<br>• Cynlluniau Cymunedol - cyhoeddwyd Gweledigaeth Leol: Canllawiau Statudol gan Lywodraeth y Cynulliad ar ddatblygu a chyflenwi strategaethau cymunedol ym mis Mawrth 2008. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cyngor manwl ar gynnwys y trydydd sector yn llawn mewn gweithgareddau cynllunio cymunedol.<br>• Cynllunio Gofodol - mae cynrychiolwyr y Trydydd Sector yn aelodau o holl grwpiau Cynllun Gofodol Cymru, ar lefel swyddog a Gweinidogol. Mae a wnelo'r cynrychiolwyr hyn â phob penderfyniad sy'n ymwneud â blaenoriaethau a gweithredu'r Cynllun Gofodol ar lefel ranbarthol. Maent hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gofodol ymhellach ledled Cymru. Mae cynrychiolwyr y sector gwirfoddol wedi cyfrannu at ddrafftio'r Adrannau ar Ardaloedd yn y fersiwn a ddiweddarir o Gynllun Gofodol Cymru sydd ar ddod. |
| 2: Dylai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru adolygu ei weithdrefnau presennol ar gyfer monitro perfformiad y Cynghorau Gwirfoddol Sirol; gan gynnwys mesurau meintiol ac ansoddol. Yna dylai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru adolygu perfformiad y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn erbyn y meini prawf hyn ar ffurf rhaglen dreigl.<br>Dylid cwblhau'r adolygiad erbyn mis Ebrill 2010. | Mae Llywodraeth y Cynulliad a CGGC wedi paratoi ac wedi cytuno ar safonau gwasanaeth a mesurau perfformiad, gan nodi'r gwasanaethau i'w darparu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, ac ar gyfer pwy y cânt eu darparu. Maent yn cynnwys mesurau meintiol ac ansoddol.<br><br>Mae CGGC yn cydgysylltu'r broses o fonitro gwasanaeth a pherfformiad, cyflwyno adroddiadau a gwelliannau i berfformiad drwy gydweithio â'r CGSau a chanolfannau gwirfoddol. Yn ogystal â hyn cynhelir adolygiad annibynnol gan Ddadansoddwr Risg a Pherfformiad CGGC ar y cyd â Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad.<br><br>Ar hyn o bryd, mae trefniadau ar waith i fonitro a chyflwyno adroddiadau bob chwe mis sy'n cynnwys:<br><br>o Adolygu safonau gwasanaeth a pherfformiad yn erbyn targedau<br>o Adolygu patrymau gwasanaeth i nodi meysydd lle ceir arfer gorau a gwelliannau posibl<br>o Archwiliad annibynnol o wasanaeth a pherfformiad y sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| | o Cyfarfodydd adolygu bob dwy flynedd gyda Llywodraeth y Cynulliad i drafod perfformiad a blaenoriaethau.<br><br>Hefyd, sefydlwyd is-grŵp i ystyried cydweithio pellach â chynrychiolwyr o CGGC, y CGSau a chanolfannau gwirfoddol. Caiff cynigion cychwynnol eu llunio yn ystod hydref 2008, gyda'r nod o gynnal astudiaethau dichonoldeb erbyn mis Hydref 2009, a'u gweithredu o 2010 ymlaen. |
| 3: Dylai'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol adolygu eu trefniadau ar gyfer hysbysebu eu gwasanaethau er mwyn datblygu cysylltiadau â chyrff llai a rhoi cymorth ymarferol; er enghraifft, eu helpu i lenwi ffurflenni cais. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Mawrth 2009. | Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn darparu ac yn hyrwyddo'n rheolaidd amrywiaeth hygyrch a chywir o wasanaethau cymorth sydd ar gael yn lleol i wella datblygiad ac effeithiolrwydd gweithredu gwirfoddol a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys helpu i ddatblygu mentrau sector gwirfoddol a bennir ac y cytunir arnynt yn lleol. Yn y 12 mis rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2008 roedd hyn yn cynnwys:<br><br>o Helpu sefydliadau i gael dros £27,000,000 o gyllid ychwanegol<br>o Rhoi 175,781 o daflenni gwybodaeth i sefydliadau lleol<br>o 2,070 o sefydliadau'n mynd i ddigwyddiadau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth ymarferol sydd ar gael a chyfleoedd ariannu<br>o Cafwyd 3,109,525 o sesiynau ymwelwyr â gwasanaethau gwefan rhyngweithiol CGS lleol<br>o Rhoi cymorth unigol i 4,976 o ymddiriedolwyr<br><br>Drwy weithio mewn partneriaeth ac ar y cyd mae'r CGSau bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella a datblygu eu gwasanaethau a'u cefnogaeth i sefydliadau lleol. Ynghyd â chanolfannau gwirfoddol a CGGC, maent wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar daflen cyhoeddusrwydd ar y cyd i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael ymhellach. |
| 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru noddi pedwar cynllun peilot mewn ardaloedd gwledig a threfol, gan ddefnyddio Cynghorau Gwirfoddol Sirol o bosibl, i roi hyfforddiant a chymorth i gyrff llai fod yn fwy hunangynhaliol. Dylid annog y sector preifat i roi cymorth, naill ai drwy gynnig nawdd neu drwy fenthyg staff sydd â sgiliau arbennig ar secondiad am gyfnodau byr. Dylai'r ddau gynllun peilot cyntaf fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2009. | Ar hyn o bryd mae CGGC wrthi'n gwneud gwaith tebyg drwy Cyllid Cynaliadwy Cymru (CCC). Rhydd gyngor a chanllawiau ymarferol i sefydliadau sydd am ddatblygu ffordd entrepreneuraidd o edrych ar gyllid er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor drwy arallgyfeirio incwm. Mae'n cynnig canllawiau ar y ffynonellau incwm amrywiol sydd ar gael i'r sector a'r dulliau o weithredu a'r sgiliau sy'n ofynnol i fabwysiadu, rheoli, a chynnal y ffynonellau hyn. Mae CCC hefyd yn darparu astudiaethau achos o sefydliadau sydd eisoes yn gweithio tuag at gynaliadwyedd, ffynhonnell o gymorth pellach, y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am CCC, a manylion hyfforddiant a digwyddiadau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys nifer o brosiectau gwledig. Caiff y wefan www.sustainablefundingcymru.org.uk ei diweddaru'n rheolaidd a chaiff sefydliadau'r cyfle i ymuno â rhestr e-bostio i gael cylchlythyr misol am ddim.<br><br>Yn ein barn ni dylai canlyniadau Cyllid Cynaliadwy Cymru gael eu gwerthuso cyn cychwyn ar ragor o brosiectau peilot. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn 2009/10. |
| 5: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddatblygu a chynnal porth canolog sy'n rhoi gwybodaeth am gyllid. Dylai hyn gynnwys cronfa ddata o ffrydiau ariannu y gellir eu chwilio; cyngor ynghylch gwneud cais am grantiau a sut i fod yn fwy hunangynhaliol drwy | Yn ogystal â gwefan Cyllid Cynaliadwy Cymru, gall CGGC a'r CGSau ddefnyddio cronfa ddata cyllid 'Grantfinder' sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Mae swyddogion wedi trafod yr argymhelliad hwn gyda CGGC, ac wedi gofyn iddo ddatblygu cynigion am borth cwbl gynhwysol. |

| | |
|---|---|
| gael hyd i arian o ffynonellau gwahanol. Dylid hysbysebu'r porth hwn yn dda, dylai fod ar y we a dylai gynnwys dolenni ag awdurdodau lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff yn y sector preifat. Dylai'r porth fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2009. | |
| 6: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei meini prawf ariannu er mwyn cynyddu'r arian craidd ar gyfer prosiectau sydd wedi'u sefydlu eisoes gan hefyd gydnabod bod angen hybu arloesedd. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2008. | Mae swyddogion wedi trafod hyn gydag Is-adran Datblygu Busnes Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn cynnal astudiaeth gwmpasu drwy'r Cynulliad ar gyllid grant. Bydd yn cynnwys canllawiau arfer gorau ar reoli grantiau a chaiff ei rhedeg gan yr Uned Llywodraethu Corfforaethol.<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y dylai fod yn cymeradwyo grantiau sy'n galluogi'r sector gwirfoddol i wneud gwaith a fydd yn helpu i gyflawni amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru a gynhwysir yn Cymru'n Un. Mae'n cynnwys y rhai na allwn eu datblygu'n uniongyrchol ar ein pen ein hunain.<br><br>Y papur "Political Economy of Funding the Third Sector" fydd prif thema cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ym mis Tachwedd a bydd y mater sy'n ymwneud â phrosiect yn erbyn cyllid craidd yn rhan bwysig o hyn. Bydd y Cyngor wedyn yn llunio argymhellion pellach ar y mater hwn. |
| 7: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gadarnhau a hybu'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru fel cyfrwng priodol i reoli a chodi gwerth asedau segur ac asedau nad oes neb yn eu hawlio, a chronfeydd segur o wahanol ffynonellau. Diben hyn fyddai i'r Sefydliad greu cronfeydd gwaddol i greu ffynhonnell ariannu gynaliadwy, hirdymor, annibynnol ar gyfer y trydydd sector, a byddai'r Sefydliad yn ychwanegu gwerth drwy gyfrwng cronfeydd y sector preifat (busnesau, unigolion ac ymddiriedolaethau) i gynyddu'r buddsoddiad hwn mewn grwpiau cymunedol, prosiectau ac elusennau lleol ar hyd a lled Cymru. | Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru drwy ei Chronfa Seilwaith Trydydd Sector. Y symiau yw £60,000 yn 2008/09, £61,500 yn 2009/10 a £63,037 yn 2010/11. Yn gyfnewid am hynny, bydd y Sefydliad yn:<br>• Cynnal cyfanswm ei gronfeydd gwaddoledig ar lefel sy'n adlewyrchu twf;<br>• Cynyddu nifer y cynlluniau mynd trwodd sydd dan reolaeth;<br>• Cynyddu nifer y grantiau a wneir.<br>• dyblu maint ei Waddol o £1 filiwn i £2 filiwn;<br>• cynyddu ei Gronfeydd Mynd Trwodd £500,000 yn ystod y cyfnod (ar ben ei darged presennol i gyflawni gwerth £1 filiwn o gronfeydd mynd trwodd bob blwyddyn).<br><br>Fel rhan o hyn bydd y Sefydliad yn ymdrechu i godi ei broffil ymhlith yr holl awdurdodau lleol, gyda'r nod o'u cael i drosglwyddo eu cronfeydd segur i'r Sefydliad. Cynhaliwyd prosiect peilot llwyddiannus yng Nghasnewydd.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn arwain y rhan a chwaraeir gan Gymru yn y broses o sefydlu Cynllun Cyfrifon Segur. Bydd y Cynllun, a gychwynnwyd gan Drysorlys EM, yn cael ei weithredu ledled y DU a bydd ond yn gymwys i gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur. Mae'r Cynllun yn destun deddfwriaeth sylfaenol; mae'r Mesur ar gyfer Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur yn mynd ar ei hynt drwy'r Senedd ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r meysydd gwario â blaenoriaeth ar gyfer Cymru a'r cyfeiriadau polisi sylfaenol, ond pennwyd dyrannwr y cronfeydd - Y Gronfa Loteri Fawr - gan Lywodraeth y DU. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cynnal ymgynghoriad ar y meysydd gwario â blaenoriaeth, y cyfeiriadau polisi a'r dulliau dyrannu ar gyfer Cymru yn ystod haf a hydref 2008. |
| 8: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro i ba raddau y mae'n arferol dyrannu cyllid am gyfnod o dair | Mae Is-Bwyllgor Ariannu a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn comisiynu ymarfer cydymffurfio blynyddol, gan fonitro i ba raddau mae adrannau'r Cynulliad yn glynu wrth y Cod Ymarfer ar Ariannu'r (Trydydd) Sector Gwirfoddol. Mae cyllid tair blynedd yn elfen allweddol o hyn. Bydd yr ymarfer monitro ar gyfer 2007/8 yn cychwyn ddiwedd Mehefin gydag |

| | |
|---|---|
| blynedd, yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer ariannu, a nodi mathau o brosiectau y byddai'n fwy priodol dyrannu cyllid iddynt am gyfnodau hirach. Dylid cyhoeddi adroddiad am y broses monitro hon erbyn mis Mawrth 2009. | adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Is-Bwyllgor Ariannu a Chydymffurfio ym mis Medi ac i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2008. |
| 9: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r gwahanol ffrydiau ariannu sydd ar gael naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei hasiantaethau, i weld a fyddai'n bosibl eu cyfuno. Dylid hefyd asesu a yw'r cydbwysedd rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Mawrth 2009. | Mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu ei chynlluniau grant yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn eglur, yn hawdd eu defnyddio ac yn werth am arian. Hefyd mae'r Cynllun Gweithredu Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i holl Adrannau Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda'r trydydd sector i egluro'r camau a gymerir ganddynt mewn ymateb i'r Cynllun Gweithredu Strategol. Ar hyn o bryd mae swyddogion Uned y Sector Gwirfoddol wrthi'n gweithio gyda'r Penaethiaid Adrannol ac Is-adrannol ar ddatblygu hyn yn Gynlluniau Gweithredu Adrannol. Mae'r Uned yn hyrwyddo ac yn disgwyl i'r adolygiad rheolaidd o ffrydiau ariannu adrannol fod yn rhan hanfodol o hyn. |
| 10: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu'r dulliau o ddarparu arian i gyrff sy'n cynnig gwasanaeth i Gymru gyfan, er mwyn dileu'r angen i wneud nifer o geisiadau gwahanol am grantiau. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2009. | Mae swyddogion wedi trafod hyn gyda CGGC ac wedi gofyn iddo gynnal yr adolygiad hwn. |
| 11: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei god ymarfer ar gyfer ariannu, er mwyn i gyrff yn y trydydd sector fedru cynllunio'u gwaith yn fwy strategol. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2009. | Mae CGGC wedi llunio fersiwn diwygiedig drafft o'r Cod a drafodir yng nghyfarfod Is-Bwyllgor Ariannu a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar 23ain Mehefin. Mae'n cynnwys penawdau ar gaffael ac adennill costau'n llawn, ymhlith newidiadau eraill y mae'r Cynllun Gweithredu Strategol yn eu gwneud yn angenrheidiol. Unwaith y'i cymeradwyir gan yr Is-Bwyllgor bydd y Cod terfynol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. |
| 12: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynnal adolygiad o godau ymarfer presennol y sector cyhoeddus ar gyfer ariannu'r trydydd sector er mwyn nodi a rhannu arfer da erbyn mis Mawrth 2009. | Mae Is-Bwyllgor Ariannu a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector eisoes wedi cychwyn ar y gwaith hwn - mae swyddogion wrthi'n casglu gwybodaeth am y mater hwn a chaiff adroddiad ei gyflwyno yng nghyfarfod yr Is-Bwyllgor ym mis Medi 2008. |
| 13: Dylai'r holl gyrff perthnasol yn y | Mae Is-Bwyllgor Ariannu a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector eisoes wedi cychwyn ar y gwaith hwn. |

| | |
|---|---|
| sector cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff ariannu statudol eraill) ddatblygu a gweithredu codau ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector (dyrannu grantiau a chaffael gwasanaethau) erbyn mis Rhagfyr 2009. Dylai'r rhain sicrhau bod gweithdrefnau caffael yn caniatáu i'r trydydd sector gystadlu â'r sectorau cyhoeddus a phreifat am gytundebau a dylent hefyd ystyried adennill costau llawn. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau a monitro'r broses o roi'r argymhelliad hwn ar waith. | Bwriedir i gydymffurfiad ehangach gan y sector cyhoeddus gael ei gynnwys mewn ymarferion cydymffurfio blynyddol yn y dyfodol. |
| 14: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu:<br>• Yr holl ffurflenni cais, i wneud yn siŵr bod yr iaith yn glir ac yn hawdd ei deall, ac yn defnyddio cyn lleied o jargon â phosibl.<br>• Y gweithdrefnau ymgeisio, er mwyn addasu'r broses yn ôl maint y grant dan sylw, a hefyd er mwyn lleihau biwrocratiaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes. Er enghraifft, dylai cais i adnewyddu grant gynnwys dim ond y manylion hynny sydd wedi newid ers y cais gwreiddiol.<br>• Yr holl ffurflenni cais i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys gwybodaeth am y modd y caiff ceisiadau eu prosesu; er enghraifft, meini prawf asesu, pryd y caiff penderfyniad ei wneud a siart llif syml yn dangos yr holl broses ymgeisio. Mae'n bwysig fod y broses ymgeisio'n dryloyw a bod cyfle i bobl roi sylwadau arni. Dylid cwblhau'r adolygiadau hyn erbyn | Mae swyddogion wedi trafod hyn gyda CGGC ac wedi gofyn iddo gynnal yr adolygiad hwn. |

| | |
|---|---|
| mis Mawrth 2009. | |
| 15: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am y cyllid sydd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd a sut y caiff ei ddyrannu. Dylid dosbarthu'r wybodaeth drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r porth gwybodaeth ar y we. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon bob chwarter, gan ddechrau fis Awst 2008. | Mae gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (www.wefo.wales.gov.uk) yn cynnwys adran newydd sef 'Gwneud Cais am Gyllid Ewropeaidd' (sydd ar gael ar Hafan y Swyddfa), sy'n llywio darpar noddwyr prosiectau drwy broses cam wrth gam i wneud cais am gyllid o dan raglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol 2007-2013. Mae'r adran newydd hon ar y wefan yn darparu gwybodaeth am syniadau am brosiectau a sut i wneud cais i gyflwyno 'Datganiad o Ddiddordeb', sef cam cyntaf y broses gwneud cais.<br><br>Mae gwybodaeth am y prosiectau a gymeradwywyd hyd yma (gan gynnwys y grant a roddwyd) a'r Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd, ar gael drwy'r ddolen ganlynol.<br><br>http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/Projects-approved-and-EOIs-submitted-for-website2600.pdf<br><br>Caiff y wefan ei gwella ymhellach maes o law, fel rhan o adolygiad parhaus y Swyddfa o gynnwys y wefan. |
| 16: Dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sefydlu canolfan gynghori i gynorthwyo cyrff y trydydd sector gyda'u ceisiadau am gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Dylid sefydlu'r ganolfan hon erbyn mis Mawrth 2009. | Yn ddiweddar cyflwynodd CGGC gynnig prosiect i'r Swyddfa am gymorth Technegol i sefydlu cymorth arbenigol cenedlaethol i sefydliadau'r trydydd sector. Cafodd y prosiect "gynnig mewn egwyddor" a chaiff ei gynnig ffurfiol maes o law.<br><br>Amcanion y prosiect hwnnw yw:-<br><br>1. yn seiliedig ar brotocolau y cytunir arnynt gan y ddwy ochr, gweithio mewn partneriaeth â Thimau Cynllunio Rhanbarthol Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Gweithwyr Allgymorth SET, Cydgysylltwyr Fframwaith Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddogion Datblygu Prosiect Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gydgysylltu cymorth cynhwysfawr i sefydliadau'r trydydd sector er mwyn datblygu a gweithredu prosiectau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn llwyddiannus o 2008-Mehefin 2015.<br><br>2. darparu gwasanaethau cymorth arbenigol cenedlaethol i gyfranogwyr trydydd sector rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd 2007-2013, gan gynnwys rhaglen dreigl o hyfforddiant, gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n cynnwys rheoli prosiect; dadansoddi risg; sicrhau ansawdd; tendro a chaffael; cyllid cynaliadwy.<br><br>Nod y prosiect yw:<br>• targedu a chynorthwyo prosiectau cenedlaethol a arweinir gan y trydydd sector mewn ffordd ragweithiol a sicrhau y gwneir cysylltiadau priodol â gweithgarwch yn lleol;<br>• rhoi cymorth datblygu prosiect ac ôl-ofal ar gais i unrhyw sefydliad trydydd sector cenedlaethol/rhanbarthol a sicrhau y gwneir cysylltiadau priodol â gweithgarwch yn lleol;<br>• rhoi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i unrhyw sefydliad yn y trydydd sector sy'n ymwneud â datblygu/cyflawni prosiect Cronfeydd Strwythurol (cenedlaethol/rhanbarthol/lleol) a'i gyfeirio at Weithwyr Allgymorth SET, fel y bo'n briodol;<br>rhoi cyngor, canllawiau a chymorth i unrhyw noddwr prosiect sydd am gynnwys sefydliadau'r trydydd sector mewn trefniadau partneriaeth a/neu gyflawni prosiect. |
| 17: Ar ôl sefydlu'r Cynllun Cyfrifon Segur, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn siŵr bod Cymru yn cael cyfran briodol o'r cyllid a bod swm sylweddol yn cael ei gyfeirio at y trydydd sector. | Crëwyd y Cynllun Cyfrifon Segur gan Drysorlys EM a bydd yn cael ei weithredu ledled y DU. O dan delerau'r Mesur ar gyfer Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, caiff yr enillion o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur sydd ar gael i'r cynllun eu rhannu rhwng gwledydd Prydain yn unol ag egwyddorion Fformiwla Barnett.<br><br>Yn ôl y ddeddfwriaeth dylai'r cynllun gael ei anelu'n bennaf at y trydydd sector ac mae'r Gweinidog dros Dreftadaeth wedi |

| | |
|---|---|
| | cefnogi hyn. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwbl ymwybodol o safbwyntiau Gweinidogion Cymru a'r disgwyliadau a osodwyd arnynt gan Drysorlys EM.<br><br>Cynhelir ymgynghoriad ar yr agweddau Cymreig ar y Cynllun yn ystod haf a hydref 2008. Yn ogystal ag ymgynghori ar flaenoriaethau Cymru o ran gwariant a'r cyfeiriadau polisi sylfaenol, bydd yr ymgynghoriad yn ymdrin ag egwyddorion dyrannu a'r dewis ddulliau o wneud hynny. Unwaith y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw yn hysbys, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn bwrw ati i ddatblygu a phennu cyfeiriad y Cynllun yng Nghymru. |
| 18: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal trafodaethau â'r Gronfa Loteri Fawr a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i archwilio sut y gellid symleiddio gweithdrefnau dosbarthu arian a rhannu arfer da. Dylid cynnal y trafodaethau hyn erbyn mis Rhagfyr 2008. | Ar hyn o bryd mae pedwar corff yn dosbarthu arian y Loteri yng Nghymru: Cyngor Celfyddydau Cymru, y Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Cyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r holl ddosbarthwyr wedi bod yn gweithio ar brosesau gwneud cais dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda'r nod o symleiddio'r broses. Deilliodd cryn dipyn o'r gwaith hwn o'r Ymgynghoriad ar arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer y Celfyddydau a Ffilmiau, Treftadaeth a Chwaraeon o 2009 a gynhaliwyd yn 2005. Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd wedi mabwysiadu'r rôl o ledaenu arfer gorau.<br><br>Cafwyd rhywfaint o gyswllt rhwng dosbarthwyr arian y loteri a Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran grantiau a phrosesau gwneud cais yn barod. Roedd hyn yn rhan o adolygiad cynharach o grantiau a gynhaliwyd drwy Lywodraeth y Cynulliad, a geisiodd fapio a rhesymoli'r rhaglenni grant niferus a gafodd eu gweinyddu gan y sefydliad ehangach. Ehangwyd yr adolygiad hwnnw, ac erbyn hyn mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â safoni gweithdrefnau. Gofynnir i dîm yr adolygiad fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn fel rhan o'i rôl. |
| 19: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei gweithdrefnau staff i sicrhau bod dulliau cyfathrebu hygyrch rhwng adrannau perthnasol a'r trydydd sector, er enghraifft, gwneud yn siŵr bod gwybodaeth am gysylltiadau a chefndir yn cael ei rhannu pan fydd swyddogion perthnasol yn gadael neu'n dechrau swyddi newydd. Mae hyn yn berthnasol hefyd I CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Ionawr 2009. | Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cytuno i sefydlu cyfarfod rheolaidd o 'Grŵp y Trydydd Sector' i hyrwyddo gwaith mwy cydgysylltiedig rhwng Adrannau Llywodraeth y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector. Bydd y Grŵp arfaethedig yn:<br><br>• cydgysylltu'r broses o gyflawni *'Y Trydydd Dimensiwn'*, cynllun gweithredu strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y trydydd sector.<br>• monitro cynnydd Adrannau o ran datblygu a gweithredu camau sy'n ategu 'Y Trydydd Dimensiwn'.<br>• rhannu gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf o fewn y Trydydd Sector ac am y rhan a chwaraeir gan Lywodraeth y Cynulliad o fewn y sector.<br>• cryfhau ymwybyddiaeth Adrannau o Gynllun y Trydydd Sector a'r Cod Ymarfer ar Ariannu'r Trydydd Sector, ynghyd â'u cydymffurfiad â hwy.<br>• hwyluso gwaith mwy cydgysylltiedig rhwng adrannau ar faterion trawsbynciol sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector.<br><br>Bydd yn cynnwys y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Cadeirydd), Cyfarwyddwyr pob Adran 'polisi' ac uwch swyddogion eraill (Pennaeth Adran/Pennaeth Busnes) sy'n gyfrifol am feysydd gwaith allweddol sy'n effeithio ar y Trydydd Sector.<br><br>Yn ogystal, mae Uned Sector Gwirfoddol Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n datblygu cwrs hyfforddi ymwybyddiaeth o'r enw "Gweithio gyda'r Trydydd Sector". Bwriedir ei gyflwyno i holl swyddogion y Cynulliad sy'n ymwneud yn rheolaidd â'r sector, o fis Tachwedd 2008. Cynhaliwyd sesiwn beilot ac mae'r Uned wrthi'n adolygu cynnwys y cwrs ar ôl cael adborth. |
| 20: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn siŵr bod cyrff y trydydd sector, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn ymwybodol o God Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cwynion. | Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cwynion yn caniatáu ystyried cwynion sy'n ymwneud â:<br>• chamweinyddu;<br>• methiannau gwasanaethau;<br>• methu â chyflawni ein Cynllun Iaith Gymraeg;<br>• methu â darparu gwybodaeth y gofynnir amdani o dan y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth<br>Ni fydd y Cod yn ystyried cwynion am benderfyniad nad yw'n ymwneud â chamweinyddu, hynny yw ni ellir defnyddio'r Cod i |

| | |
|---|---|
| | gwyno am benderfyniad dim ond am nad yw'r cwsmer yn cytuno ag ef.<br><br>Mae'r Cod ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad, neu gellir gofyn am gopi caled gan Uned Cwynion Llywodraeth y Cynulliad. Mae gan yr Uned linell cwynion cyhoeddus (029 2080 1378) a chyfeiriad e-bost ar gyfer cwynion (complaints@wales.gsi.gov.uk). |
| 21: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau o staff sy'n gyfrifol am gynorthwyo a chyfathrebu â chyrff y trydydd sector. | Mae Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Adnoddau Dynol Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig sesiynau hyfforddi ar gydraddoldeb i staff o bob adran, ond sesiynau cyffredinol yw'r rhain yn hytrach na rhai sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion arbenigol, oni ofynnir am hynny.<br><br>Mae pob adran yn gyfrifol am sicrhau bod ei staff yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb sy'n benodol, wedi'i deilwra ac yn berthnasol i'w gwasanaeth ei hun. Gofynnir i is-adrannau ymdrin â'r argymhelliad hwn fel rhan o'u gwaith i ddatblygu camau i ategu 'Y Trydydd Dimensiwn' (cam 6a yng Nghynllun Gweithredu'r Trydydd Dimensiwn). |
| 22: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu ystadegau'n ymwneud â nifer y ceisiadau grant sy'n cael eu prosesu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ei staff ei hun a chan asiantaethau allanol. Dylid gwneud yn siŵr bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i fodloni'r galw a ragwelir; gan gynnwys recriwtio a hyfforddi staff. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn er mwyn sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddyrannu yng nghylch cyllideb nesaf y Cynulliad Cenedlaethol. | Fel y nodwyd yn gynharach, mae Uned Sector Gwirfoddol Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n datblygu cwrs hyfforddi ymwybyddiaeth o'r enw "Gweithio gyda'r Trydydd Sector" a bydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r argymhelliad hwn yn y rhaglen. Bydd wedyn yn ofynnol i adrannau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad gynnwys hyn yn eu Cynlluniau Gweithredu Adrannol.<br><br>Mae gan holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad Gynllun Iaith Gymraeg adrannol, a bydd gofyn i adrannau gynnwys gofynion yr argymhelliad hwn yn y Cynlluniau hynny. |
| 23: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei gweithdrefnau monitro a gwerthuso i wneud yn siŵr eu bod yn cyfateb yn well i faint y grant dan sylw a'u bod yn canolbwyntio mwy ar fesur canlyniadau yn hytrach na gweithgarwch. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn a chyhoeddi canllawiau diwygiedig erbyn mis Rhagfyr 2009. | Ar hyn o bryd mae adrannau unigol Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am sicrhau bod eu grantiau yn cynnig gwerth am arian sy'n cynnwys gwneud gwaith ymchwil a monitro i helpu i werthuso perfformiad ac effeithiolrwydd cyllid grant. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yr angen i gryn dipyn o'i gwaith ganolbwyntio ar fesur canlyniadau yn ogystal â gweithgareddau.<br><br>Awgrymir y dylai Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol gael ei chomisiynu i adolygu sut y caiff grantiau eu monitro a'u gwerthuso a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Byddai hyn yn cyd-fynd â chylch gwaith y Swyddfa i gyflwyno rhaglen o ymchwil drawsbynciol.<br><br>Cydnabyddir bod angen ystyried sut mae'r broses o werthuso grantiau'r sector gwirfoddol yn cydgysylltu, nid yn unig o fewn Llywodraeth y Cynulliad ond hefyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac arianwyr eraill, yn enwedig o ran lleihau'r baich ar y sector ond hefyd i wella effeithlonrwydd ac ansawdd dulliau o weithredu ac adnoddau cymorth a chanllawiau proffesiynol. |
| 24: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff ariannu eraill gynnwys 'cyllidebu ar sail rhyw' fel mater penodol yn eu cod ymarfer ac yn eu gweithdrefnau monitro. Dylid | Mae swyddogaeth Cyllid Llywodraeth y Cynulliad yn destun rhaglen o newid ar hyn o bryd o ran y ffordd y caiff systemau ariannol a chyllidebau eu pennu. eu monitro a'u rheoli. Mae'r prosiect hwn yn un pellgyrhaeddol sy'n anelu at sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y gweithredir y swyddogaeth gyllid ymhob adran ac yr ategir y broses o gyflawni polisïau.<br>Mae manyleb y cynllun yn cynnwys y gallu i adrodd ar fentrau polisi trawsbynciol, gan gynnwys cyllidebu ar sail rhyw a phlant. Fodd bynnag, mae angen cydnabod bod angen i ddatblygiadau megis cyllidebu ar sail rhyw gael eu cynnwys ar y cam |

| | |
|---|---|
| cwblhau hyn erbyn mis Mawrth 2009. | datblygu polisi ac o bosibl eu cyflwyno fel rhan o'r Ymarfer Dyrannu Adnoddau blynyddol. Bydd cam nesaf y rhaglen o newid yn ymdrin â phennu cyllideb a nodi allbynnau a chanlyniadau, a gallai cyllidebu ar sail rhyw fod yn un elfen arall o'r datblygiad hwn. Cred FP mai'r cynharaf y gellid datblygu hyn fyddai 2010. |
| 25: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r broses o farchnata a brandio ffynonellau ariannu'r trydydd sector gan gynhyrchu strategaeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ffynhonnell yr arian, sut y caiff ei ddyrannu a'r canlyniadau. Dylid cynhyrchu'r strategaeth hon erbyn mis Ionawr 2010. | Un o'r camau yn y Cynllun Gweithredu Strategol yw cynllunio a chynnal ymgyrch yn y cyfryngau i hyrwyddo gwirfoddoli a chyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd. Cynigir y bydd rhan o'r cynllun yn cynnwys brand y trydydd sector a ddefnyddir i ddangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r sector. Bydd y sector yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o gynllunio a chynnal yr ymgyrch arfaethedig yn y cyfryngau.<br><br>Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r ffyrdd y gallai ffynonellau presennol o wybodaeth, megis y Canllaw ar Grantiau Sector Gwirfoddol Llywodraeth y Cynulliad a'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Gwirfoddol y (Trydydd) Sector gael eu gwneud yn haws i'w defnyddio gan y cyhoedd, a'u hyrwyddo'n ehangach.<br><br>Mae'r Canllaw ar Grantiau Sector Gwirfoddol Llywodraeth y Cynulliad ar gael fel copi caled ac ar-lein. Mae tudalennau'r trydydd sector ar wefan Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn cynnwys dolenni i wefannau darpar noddwyr eraill a bydd swyddogion yn ystyried ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i'r ffynonellau hyn o wybodaeth yn ehangach, a'u gwneud yn fwy hygyrch. |